**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1401
Ein cyf/Our ref LG/00033/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

09 Chwefror 2024

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 18 Ionawr ynghylch Deiseb P-06-140: Rhaid sicrhau na fydd pob bwyd a gaffaelir yn gyhoeddus yng Nghymru byth yn fegan neu'n llysieuol yn unig.

Pasiodd y Senedd y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn 2023 sy'n cynnwys dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol. Rydym wrthi'n gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddatblygu canllawiau a rheoliadau statudol i gefnogi'r dyletswyddau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol yn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus. Gall y Canllawiau roi cyfle i rannu arferion da mewn perthynas â chaffael bwyd cymdeithasol gyfrifol.

Fodd bynnag, cyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am wneud eu penderfyniadau caffael eu hunain yn unol â'u hanghenion cyhyd â'u bod yn gwneud hynny o fewn yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu. Wrth gynnig gwasanaeth fel bwyd, bydd cyrff cyhoeddus yn ystyried, i'r graddau y gallant yn rhesymol, yr hyn y mae defnyddwyr eisiau ei fwyta.

Yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.